

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2023-2024







Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
**This document is available in English**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF
CAERDYDD



# CYNNWYS


Cyflwyniad 4

Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu 5

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024 8

- Blaenoriaeth 1: Hanfodion Diogelu 10
- Blaenoriaeth 2: Adolygiadau Diogelu Effeithiol 14
- Blaenoriaeth 3: Ymateb i Themâu Diogelu 18

Tynnu Sylw at Ein Cyflawniadau 22

Ceisiadau am Wybodaeth Adran 137 a Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion 30

Ein Partneriaeth Ddiogelu 31

Cyllideb 32

Cysylltu â ni 33

Atodiad 34



# CYFLWYNIAD

Mae cynllun blynyddol BDRh Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro (BDCF) yn rhoi crynodeb o'n cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r bwrdd dros y 12 mis diwethaf.

Mae'n rhoi cyfle i'r bwrdd adlewyrchu ac adolygu'r gwaith sydd wedi cymryd lle ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro.

Rydym yn parhau i weithio mewn tirwedd gymdeithasol ac ariannol heriol iawn ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r gweithlu diogelu ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn parhau i ddangos sgil a dygnwch anhygoel, gan weithio'n ddi-baid wrth iddynt wynebu'r heriau hyn.

Mae manteision gwaith partneriaeth cryf rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a'r cyhoedd yn ehangach yn allweddol i sicrhau canlyniadau cynaliadwy i bobl ar draws y rhanbarth.

**Sarah Mcgill** - Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau

**Lance Carver** - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg



# PUM MAES EFFEITHIOLRWYDD DIOGELU

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Broses Ddiogelu | • Sut all y bwrdd fod yn sicr bod trefniadau'n effeithiol wrth nodi ac ymateb i bryderon diogelu?<br>• Beth yw canlyniadau prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol? |
| 2. | Gweithgarwch a Data Amlasiantaethol | • Sut mae'r bwrdd yn sicrhau ei hun bod protocolau presennol rhwng asiantaethau'n gweithio'n effeithiol, pan nodir bod unigolion mewn perygl o niwed?<br>• Pa ddata sy'n cael ei gasglu o amgylch hyn, sut mae'n cael ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn y cyfnod? |
| 3. | Mannau Problemus Thematig | • Pa ffynonellau thematig allweddol o niwed sy'n gofyn am ymateb diogelu lleol sydd wedi'u tystiolaethu yn nata'r Bwrdd?<br>• Pa gamau sydd wedi'u nodi i ymateb i'r dystiolaeth thematig hon? |
| 4. | Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth | • Beth yw amcanion y BDRh o ran casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â gweithgarwch diogelu uniongyrchol?<br>• Beth mae'r metrigau sy'n cipio'r adborth hwn yn ei ddweud wrth y Bwrdd?<br>• Sut mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth hon ac o fewn pa derfyn amser? |
| 5. | Gwybodaeth am y Gweithlu | • Beth sy'n hysbys am broffil y gweithlu diogelu?<br>• Sut mae recriwtio a chadw yn effeithio ar gyflawni dyletswyddau diogelu?<br>• I ba raddau y mae hyfforddiant amlasiantaethol yn cael ei gynnig a'i ddilyn gan y gweithlu diogelu (fel y'i proffiliwyd)?<br>• Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall ac yn ymateb i les a chefnogaeth y gweithlu diogelu? |

### *Sut allwn ni fod yn sicr bod ein Prosesau Diogelu Amlasiantaethol yn effeithiol?*

Gwnaed cynnydd gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i adolygu, siapio a phrofi'r Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaethol Cenedlaethol ar draws y rhanbarth. Ar ôl iddo gael ei ymwreiddio, bydd y fframwaith yn darparu darlun cydlynol, cywir a phriodol-gytbwys o effeithiolrwydd diogelu a dealltwriaeth genedlaethol gyffredin o gryfderau, gwendidau a meysydd ar gyfer gwella a datblygu ar draws y system gyfan. Yn rhan allweddol o'r dull hwn mae'r Pum Maes Effeithiolrwydd Diogelu.

Amlygir y meysydd hyn drwy gyfrwng allwedd drwy gydol yr Adroddiad Blynyddol i arddangos meysydd o gynnydd ac arfer da yn y meysydd hyn.

Maes Diogelu

Mae crynodeb o gynnydd Caerdydd a'r Fro yn erbyn y meysydd yn 2023-24 hefyd wedi'i amlinellu isod.



# Y BROSES DDIOGELU

- ***Sut all y bwrdd fod yn sicr bod trefniadau'n effeithiol wrth nodi ac ymateb i bryderon diogelu?***
- ***Beth yw canlyniadau prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?***

Yn ystod 2023-2024 mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi adolygu a chryfhau trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Diogelu. Mae hyn wedi caniatáu goruchwyliaeth symlach a chydlynol o ehangder gwaith y bwrdd a'r trefniadau sydd ar waith i nodi ac ymateb i bryderon diogelu yn effeithiol. Mae cofrestr risg y bwrdd bellach ar waith sy'n caniatáu i ni uwchgyfeirio, adolygu a lliniaru unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar bartneriaid amlasiantaethol gan ymateb yn effeithiol i bryderon diogelu. Yn ogystal, mae'r gwaith o ddatblygu Dangosfwrdd Data y Bwrdd yn caniatáu i bartneriaid adolygu a datblygu'r camau gweithredu a neilltuir i'w sefydliad, yn ogystal â goruchwylio'n fyw gynnydd cyffredinol adolygiadau, argymhellion a chamau gweithredu.

Er mwyn cefnogi partneriaid y bwrdd i ymateb yn effeithiol i bryderon diogelu, mae'r bwrdd wedi bod yn gweithio ar sicrhau bod y Fframwaith a'r Safonau Hyfforddi Cenedlaethol yn cael eu hymgorffori ar draws y rhanbarth. Mae hunanasesiad hyfforddiant wedi'i gyflawni gan bartneriaid y bwrdd sy'n asesu'r statws presennol yn erbyn y safonau, ac mae camau gwella wedi'u cynhyrchu a'u hadolygu bob 6 mis. Er mwyn cefnogi datblygiad a chydlyniad hyfforddiant ar draws y rhanbarthau, sefydlwyd rhwydwaith cydlynwyr hyfforddiant. Er ei fod yn ei ddyddiau cynnar, bydd yn allweddol wrth sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gydlynu, bod cyfleoedd amlasiantaethol yn cael eu gwella, nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu, a bod adnoddau'n cael eu rhannu'n well.

Mae gweithredu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn gyfle gwirioneddol i symleiddio a chryfhau'r broses adolygu diogelu ar gyfer y rhanbarth. Mae peilot ADUS llwyddiannus wedi'i gwblhau yng Nghaerdydd a'r Fro ac mae gwersi allweddol wedi'u dysgu mewn perthynas â'r broses. Er mwyn cefnogi gweithrediad, penodwyd Rheolwr Adolygu i'r Uned Fusnes a fydd yn rheoli gweithrediad yr ADUS ac yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu a chwblhau dysgu o'r adolygiad. Mae cynllun gwella Adolygiad Achos wedi'i ddrafftio sy'n amlinellu'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau gweithrediad effeithiol a llwyddiannus ADUS.

# GWEITHGARWCH A DATA AMLASIANTAETHOL

- ***Sut mae'r bwrdd yn sicrhau ei hun bod protocolau presennol rhwng asiantaethau'n gweithio'n effeithiol, pan nodir bod unigolion mewn perygl o niwed?***
- ***Pa ddata sy'n cael ei gasglu o amgylch hyn, sut mae'n cael ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn y cyfnod?***

Eleni mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gweithio ar ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol. Yn 2023-2024 gwnaeth partneriaid y bwrdd a thimau perfformiad rhanbarthol adolygu a gwneud sylwadau ar brototeip y fframwaith perfformiad drafft. Casglwyd data prawf mewn perthynas â'r metrigau craidd a darparwyd adborth i'r bwrdd cenedlaethol mewn perthynas â'r ymarfer hwn. Mae partneriaid y bwrdd yn awyddus i sicrhau dadansoddiad effeithiol o'r data rydym yn dechrau ei gasglu, er mwyn caniatáu i themâu, bylchau a thueddiadau allweddol gael eu codi i'w trafod ac er mwyn cymryd camau gweithredu. Er mwyn cefnogi hyn, bydd yr uned fusnes yn edrych ar gryfhau'r capasiti o fewn y tîm i ganiatáu ar gyfer y swyddogaeth ddadansoddi hon. Yn y flwyddyn i ddod bydd y bwrdd rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) a phartneriaid i weithredu'r fframwaith.

Cynhaliwyd hunanasesiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro blynyddol ym mis Hydref 23. Gwelwyd gwelliant cyffredinol yn statws Coch Melyn Gwyrdd (CMG) y meysydd asesu. Cyflwynwyd y dadansoddiad hunanasesu, ynghyd â'r camau gwella a gynhyrchwyd, i'r bwrdd, a byddant yn cael eu hadolygu ar gyfnodau o 6 mis. Yn ogystal, mae'r bwrdd wedi gweithredu fframwaith sicrwydd hunanasesu i bartneriaid i ganiatáu goruchwyliaeth a sicrwydd i'r bwrdd o ran yr hunanasesiadau diogelu a gynhelir gan asiantaethau unigol.


Mae Grŵp Cyflawni Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi goruchwylio'r traciwr Polisïau a Gweithdrefnau sy'n casglu'r wybodaeth am ddatblygu ac adolygu'r holl bolisïau a phrotocolau amlasiantaethol. Bydd data'n cael ei gasglu yn nangosfwrdd data'r Bwrdd i roi sicrwydd ar y defnydd amlasiantaethol o brotocolau amlasiantaethol e.e. Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol, Cwynion a Honiadau a Phryderon Diogelu.

Mae'r angen am rannu amlasiantaethol gwell wedi'i nodi'n rhanbarthol ac yn genedlaethol trwy amrywiaeth o ddulliau, yn enwedig o wersi a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer. Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymunedau a Thai yng Nghyngor Caerdydd i archwilio'r dechnoleg sydd ar gael (Golwg Sengl ar y Plentyn) i gynorthwyo asiantaethau i wella trefniadau rhannu gwybodaeth.

# MANNAU PROBLEMUS THEMATIG

- ***Pa ffynonellau thematig allweddol o niwed sy'n gofyn am ymateb diogelu lleol sydd wedi'u tystiolaethu yn nata'r Bwrdd?***
- ***Pa gamau sydd wedi'u nodi i ymateb i'r dystiolaeth thematig hon?***

Er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn ymateb yn barhaus ac yn effeithiol i themâu diogelu, amlinellir nifer o ffyrdd y gellir nodi neu godi themâu ym model adolygu Parhaus y bwrdd.




Nodwyd themâu penodol yng nghynllun blynyddol 2023-2024 ac amlinellir rhagor o fanylion am sut y mae'r rhain wedi'u datblygu drwy gydol y flwyddyn yn y tabl adolygu cynnydd.

# ADBORTH DEFNYDDWYR GWASANAETH

- ***Beth yw amcanion y BDRh o ran casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â gweithgarwch diogelu uniongyrchol?***
- ***Beth mae'r metrigau sy'n cipio'r adborth hwn yn ei ddweud wrth y Bwrdd?***
- ***Sut mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth hon ac o fewn pa derfyn amser?***

Mae sicrhau bod llais, ymgysylltiad a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi'n effeithiol mewn ffordd ystyrlon yn faes sydd angen ei ddatblygu ymhellach ar draws Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro. Mae arferion da yn bodoli o fewn asiantaethau unigol, ac mae ymarfer wedi datblygu i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd y gwaith o ddarparu gwasanaethau, ond mae angen gwelliannau mewn perthynas â'r ffordd rydym yn adolygu ac yn ymateb i adborth yng ngwaith y bwrdd. Mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion ac yn cael eu hannog i roi adborth ar brofiadau ar ddiwedd y broses. Mae teuluoedd sy'n rhan o adolygiadau Caerdydd a'r Fro wedi cael y cyfle i roi adborth uniongyrchol i'r tîm ADUS. Mae Uned Fusnes y Bwrdd yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm ADUS a meysydd eraill y Bwrdd i sicrhau bod yr adborth hwn gan deuluoedd yn cael ei ymgorffori yn natblygiad yr ADUS a'n bod yn parhau i ymgysylltu â theuluoedd mewn ffordd ystyrlon, gydweithredol.

Ar draws 2023-24, lle bo'n bosibl, ceisiwyd adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â datblygu polisïau a gweithdrefnau cyhoeddedig y bwrdd. Yn ogystal, mae cyfres o egwyddorion cyfranogiad wedi'u drafftio ac maent yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a fydd yn darparu'r disgwyliadau a'r safonau a ddisgwylir gan bob un o bartneriaid y bwrdd mewn perthynas â chyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogi. Er mwyn cefnogi'r egwyddorion hyn, mae'r bwrdd yn gweithio ar ddatblygu cynllun cyfathrebu clir.

# GWYBODAETH AM Y GWEITHLU

- ***Beth sy'n hysbys am broffil y gweithlu diogelu?***
- ***Sut mae recriwtio a chadw yn effeithio ar gyflawni dyletswyddau diogelu?***
- ***I ba raddau y mae hyfforddiant amlasiantaethol yn cael ei gynnig a'i ddilyn gan y gweithlu diogelu (fel y'i proffiliwyd)?***
- ***Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall ac yn ymateb i les a chefnogaeth y gweithlu diogelu?***

Nid yw trefniadau cofnodi gwybodaeth am weithlu'r bartneriaeth wedi'u hymgorffori yng ngwaith y bwrdd ar hyn o bryd. Bydd asiantaethau unigol yn goruchwylio'r wybodaeth hon ac mae'r gofrestr risg yn darparu mecanwaith i godi unrhyw faterion neu rwystrau penodol gyda'r bwrdd i'w trafod. Gyda datblygiad a gweithrediad pellach y fframwaith perfformiad cenedlaethol, rydym yn gobeithio y bydd dadansoddiad mwy cadarn o ddata sy'n ymwneud â'r gweithlu'n weladwy i bartneriaid y bwrdd.

Mae hyfforddiant diogelu amlasiantaethol wedi bod yn flaenoriaeth graidd i'r bwrdd, ac er y bu rhywfaint o oedi, mae gan y bwrdd bellach grŵp o weithwyr amlasiantaethol proffesiynol a fydd yn darparu'r cynnwys hyfforddi sydd wedi'i gymeradwyo gan bartneriaid. Bydd yr hyfforddiant yn dechrau cael ei gyflwyno ym mis Mai 2024, a bydd yn gynllun peilot er mwyn caniatáu i'r hyfforddiant gael ei ddiweddaru a'i gryfhau ar draws y cam peilot. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i gynnwys yr hyfforddiant gael ei alinio ag unrhyw gynnwys y cytunwyd arno drwy weithrediad y Safonau Hyfforddi Cenedlaethol. Drwy gydol 23-24 mae amrywiaeth o sesiynau datblygu ymarfer, rhwydweithiau proffesiynol a chyfleoedd hyfforddi wedi'u cyflwyno a'u rhaeadru i bartneriaid amlasiantaethol, yn enwedig yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol, ond bydd cyflwyno'r hyfforddiant diogelu amlasiantaethol penodol yn sicrhau bod partneriaid yn deall rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol bartneriaid diogelu.

# EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER 2023-2024

## BLAENORIAETH 1: HANFODION DIOGELU

**CANLYNIAD:** *Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygiad y gweithlu i sicrhau bod hanfodion diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth*

## BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

**CANLYNIAD:** *Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yna brosesau adolygu effeithiol a bod gwersi a ddysgwyd o adolygiadau'n cael eu gweithredu ar draws y bartneriaeth.*

## BLAENORIAETH 3: YMATEB I THEMÂU DIOGELU

**CANLYNIAD:** *Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydlyniad ymateb amlasiantaethol effeithiol*



# **BLAENORIAETH 1:** HANFODION DIOGELU

## CANLYNIAD:

**Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygiad y gweithlu i sicrhau bod hanfodion diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth.**

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **HYFFORDDIANT DIOGELU AMLASIANTAETHOL** | | | |
| **1.** | Gweithredu rhaglen hyfforddiant diogelu amlasiantaethol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol<br>Gweithgaredd a Data Amlasiantaethol<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | • Carfan o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn darpariaeth diogelu amlasiantaethol.<br>• Adnewyddu a diweddaru cynnwys hyfforddiant.<br>• Dyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer 2024 i brofi a chyflwyno hyfforddiant diogelu amlasiantaethol. | Mae hyfforddiant amlasiantaethol yn parhau i fod yn uchel ar flaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2024-25. |
| **2.** | Adolygu ac ymateb i gynnydd y bwrdd yn erbyn gweithrediad y Safonau Hyfforddi Cenedlaethol<br>Y Broses Ddiogelu | • Datblygwyd a chwblhawyd hunanasesiad hyfforddiant gan bartneriaid y BDRh i asesu cynnydd yn erbyn y Safonau Hyfforddi Cenedlaethol.<br>• Gwnaed dadansoddiad o'r ffurflenni asesu ac mae camau gwella wedi'u cynhyrchu gan bartneriaid.<br>• Cytunwyd ar flaenoriaethau hyfforddi'r bwrdd.<br>• Sefydlwyd Rhwydwaith Cydlynwyr Hyfforddiant sy'n cynnwys cynigion hyfforddi ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol.<br>• Mae deunyddiau ac offer hyfforddiant arfer gorau wedi'u rhannu ar draws sefydliadau.<br>• Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu gan grŵp hyfforddi i ddatblygu cynnig hyfforddiant Caerdydd a'r Fro ymhellach yn unol â'r safonau. | Bydd camau gwella'n cael eu hadolygu a'u diweddaru ar y marc 6 a 12 mis.<br>Bydd Hunanasesiadau Hyfforddiant yn cael eu hailadrodd bob blwyddyn.<br><br>Mae goruchwylio a datblygu hyfforddiant yn weithgaredd craidd i'r bwrdd a bydd yn parhau yn 2024-2025. |
| **DATA A MEWNWELEDIADAU** | | | |
| **3.** | Cynhyrchu fframwaith perfformiad a sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn data diogelu perthnasol a data sy'n adlewyrchu cynnydd y bwrdd yn erbyn amcanion a chamau gweithredu allweddol yn unol â datblygiadau fframwaith perfformiad cenedlaethol<br>Gweithgaredd a Data Amlasiantaethol | • Cynhyrchwyd dangosfwrdd data Power BI gan alluogi dadansoddiad byw o ddata perfformiad y bwrdd.<br>• Mae cynnydd yn erbyn adolygiadau, argymhellion a chamau gweithredu a gynhyrchir o adolygiadau bellach yn weladwy i aelodau'r Bwrdd.<br>• Mae prototeip y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol wedi'i adolygu gan y grŵp cyflawni ac mae data prawf rhanbarthol wedi'i gasglu i lywio prototeip BDAC. | Bydd y Fframwaith Perfformiad yn cael ei ddatblygu ymhellach i ddarparu dadansoddiad data rheolaidd i'r bwrdd i lywio datblygiadau yn y dyfodol, tynnu sylw at fylchau a meysydd sy'n peri pryder a chefnogi'r bwrdd i nodi a dysgu o arfer gorau ar draws y rhanbarth. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **4.** | Datblygu Cofrestr Risg Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a fframwaith ar gyfer uwchgyfeirio materion ar draws y bartneriaeth ddiogelu.<br>Proses Ddiogelu | • Mae'r Gofrestr Risg bellach ar waith ar gyfer BDRh Caerdydd a'r Fro.<br>• Trafodir risgiau fel eitem sefydlog ar yr agenda yn y grŵp cyflawni a'r bwrdd.<br>• Cynhelir trafodaethau dwfn i archwilio risgiau yn fanylach ac i gytuno ar gamau lliniaru amlasiantaethol. | Bydd y gofrestr risg yn rhan o weithdrefn busnes fel yr arfer y BDRh. |
| **CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU** | | | |
| **5.** | Codi ymwybyddiaeth o waith Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro drwy sicrhau ei fod yn cael ei hyrwyddo'n eang i'r gweithlu, cymunedau, a phartneriaethau perthnasol eraill yn y rhanbarth<br>Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth | • Datblygwyd cylchlythyr Caerdydd a'r Fro ac mae'r rhifyn cyntaf wedi'i ddosbarthu.<br>• Mae gwelliannau i wefan y BDRh ar y gweill i gefnogi mynediad hawdd at wybodaeth, diweddariadau a chanllawiau.<br>• Defnyddiwyd yr Wythnos Diogelu Genedlaethol fel llwyfan i hyrwyddo'r gwaith a'r gwersi a ddysgwyd gan y Bwrdd drwy weithdai thematig.<br>• Cyfarfodydd sefydlu yn cael eu cynnal rhwng aelodau newydd o staff a'r Uned Fusnes i hyrwyddo gwaith y Bwrdd ymhellach. | Bydd cynllun Cyfathrebu blynyddol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y bwrdd a fydd yn cefnogi dosbarthiad gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd a chyson i bartneriaid y bwrdd a chymunedau ar draws y rhanbarth.<br><br>Cyflwyno proses ffurfiol o gynnig cyfnod sefydlu i aelodau newydd o staff o fewn asiantaethau i hyrwyddo dealltwriaeth o waith y Bwrdd Diogelu. |
| **6.** | Codi ymwybyddiaeth o Ddiogelu, yr arwyddion i gadw llygad amdanynt, a ble i gael help a chymorth gyda gweithwyr proffesiynol, partneriaid a'n cymunedau.<br>Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | • Roedd yr Wythnos Diogelu Genedlaethol yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o ecsbloetiaeth gyda'r gweithlu, asiantaethau partner a chymunedau. Roedd yr wythnos yn cynnwys cyfres o weithdai, sesiynau datblygu ymarfer, ymgyrch gyhoeddus a chynhadledd ranbarthol yn canolbwyntio ar y thema ecsbloetiaeth.<br>• Gwnaed cynnydd o ran datblygu MARF digidol - bydd hyn yn gwella ansawdd cyflwyniadau MARF yn ogystal â darparu prosesau syml i weithwyr proffesiynol gyflwyno pryderon. | Bydd y MARF Digidol yn cael ei lansio, a bydd hyfforddiant ac adnoddau'n cael eu datblygu i gefnogi ymarferwyr i wneud atgyfeiriadau diogelu o ansawdd uchel.<br><br>Bydd Cynllun Cyfathrebu Blynyddol ar waith.<br><br>Bydd sesiynau datblygu Rhaglen Ymarfer yn cael eu cydlynu gan Uned Fusnes y BDRh<br><br>Bydd gwaith ailgynllunio'r wefan yn helpu i wneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch. |
| **7.** | Sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl yn cymryd rhan weithredol wrth lunio a gwella dyluniad a darpariaeth gwasanaethau ar draws y rhanbarth<br>Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth | Mae adolygiad o fframwaith y BDRh ar gyfer Cyfathrebu, Ymgysylltu a Chyfranogi wedi'i gynnal.<br><br>Cytunwyd y bydd cyfres o egwyddorion ymgysylltu yn cael eu datblygu ar gyfer pob partner.<br><br>Mae teuluoedd a grwpiau cymunedol wedi cael cyfle i brofi, rhoi adborth a siapio'r pecynnau cymorth/canllawiau esgeulustod a ddatblygwyd. | Bydd Egwyddorion Ymgysylltu a Chyfranogi yn cael eu lansio |

# BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

## CANLYNIAD:

**Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yna brosesau adolygu effeithiol a bod dysgu o adolygu yn cael ei weithredu ar draws y bartneriaeth.**

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **DATBLYGU'R BROSES ADOLYGU** | | | |
| **1.** | Datblygu fframwaith newydd i ddarparu gweledidd o statws gweithrediad gwersi'r adolygiad mewn cyfarfodydd Bwrdd, gan gynnwys dadansoddiad thematig a sgôr CMG ar gyfer pob cam gweithredu<br>Proses Ddiogelu | • Mae Traciwr Data yn ei le a dangosfwrdd Power BI wedi'i gynhyrchu ac ar gael i aelodau'r bwrdd.<br>• Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys diweddariadau byw a statws cynnydd neu adolygiadau ac argymhellion ac mae'n cynnwys dadansoddiad thematig. | Bydd y defnydd o'r dangosfwrdd yn cael ei ymgorffori ymhellach mewn ymarfer i wella goruchwyliaeth a dilyniant ffrydiau gwaith. |
| **2.** | Cyflwyno'r cynllun peilot Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) a chefnogi cyflwyno'r ADUS yn y rhanbarth<br>Proses Ddiogelu | • Ymateb y BDRh wedi'i gydgasglu ar gyfer ymgynghoriad LIC ar y canllawiau ADUS.<br>• Cynrychiolaeth BDRh o weithgorau LIC i gefnogi siapio a gweithredu ADUS<br>• Cynllun peilot ADUS ar y gweill. Adroddiad wedi'i ddrafftio, ei gadarnhau a'i gyhoeddi (Mawrth 2024)<br>• Dysgu Peilot wedi'i gofnodi a'i gyflwyno<br>• Cynllun Gwella Grŵp Adolygu Achosion (GAA) a ddrafftiwyd i gryfhau trefniadau llywodraethu i gefnogi a hwyluso gweithrediad ADUS. | Bydd cynllun gweithredu ADUS lleol yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod y broses yn cael ei chyflwyno'n effeithiol yn 24-25<br><br>Bydd camau gweithredu Cynllun Gwella GAA yn cael eu hymgorffori |
| **SGILIAU PANEL A GWYDNWCH** | | | |
| **3.** | Darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer cadeiryddion Adolygiadau, adolygwyr, ac aelodau panel<br>Gweithgaredd a Data Amlasiantaethol<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | • Cafodd hyfforddiant i aelodau'r panel a Chadeiryddion ei gomisiynu a'i gyflwyno i 31 aelod o staff yn cynrychioli 9 sefydliad partner.<br>• Mae BDRh Caerdydd a'r Fro wedi cyfrannu at ddatblygu'r deunyddiau hyfforddi newydd ar gyfer cyflwyno hyfforddiant ADUS drwy'r gweithgor<br>• Mae gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hadnabod ar draws y rhanbarth ac wedi mynychu'r rhaglen hyfforddi beilot.<br>• Mae enwebiadau wedi'u gwneud ar draws y rhanbarth ar gyfer y Rhestr Genedlaethol o Gadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy<br>• Mae 4 aelod o staff ar draws y rhanbarth wedi ymgymryd â hyfforddiant OWHR | Bydd y pecyn hyfforddi ADUS y cytunwyd arno yn cael ei gyflwyno i weithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU** | | | |
| **4.** | Datblygu fframwaith 'lledaenu dysgu' i sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu'n effeithiol, yn systematig ac yn gynaliadwy gyda'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl<br>Gwybodaeth am y Gweithlu | • Fframwaith drafft wedi'i ddatblygu – mae angen rhagor o waith i alinio â'r fframwaith / egwyddorion cyfathrebu, ymgysylltu a chyfranogi sy'n cael eu datblygu. | Bydd y fframwaith terfynol yn cael ei ymgorffori ar draws partneriaeth y BDRh. |
| **CYFLAWNI GWELLIANT A CHEFNOGI DATBLYGIAD YMARFER DIOGELU** | | | |
| **5.** | Darparu goruchwyliaeth effeithiol i sicrhau bod camau gwella allweddol yn cael eu cyflawni sy'n deillio o adolygiadau diogelu gorffenedig<br>Proses Ddiogelu | • Mae trefniadau llywodraethu symlach bellach ar waith.<br>• Gweithredwyd grŵp cyflawni sengl i gryfhau goruchwyliaeth o gamau gwella ar draws rhychwant eang ffrydiau gwaith y bwrdd.<br>• Cynhaliwyd ymarfer cydgrynhoi i sicrhau bod gweithredoedd ac argymhellion CLYFAR yn cael eu cofnodi'n effeithiol.<br>• Dangosfwrdd data ar waith i ganiatáu goruchwyliaeth fyw a chamau dilynol ar gamau gweithredu gan bob un o bartneriaid y bwrdd.<br>• Rheolwr adolygu yn y swydd i ddarparu goruchwyliaeth gyson o'r rhaglen adolygiadau. | Mae hwn yn faes gweithgarwch craidd ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a bydd yn parhau i mewn i 24-25. |



# BLAENORIAETH 3: YMATEB I THEMÂU DIOGELU

## CANLYNIAD:

**Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydlyniad ymateb amlasiantaethol effeithiol**

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **ECSBLOETIAETH** | | | |
| **1.** | Cwblhau adolygiad o'r strategaeth ecsbloetiaeth ranbarthol a llunio cynllun cyflawni i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd<br>Mannau Problemus Thematig | • Strategaeth Ecsbloetiaeth Caerdydd a'r Fro (2019) wedi'i hadolygu gan y grŵp gorchwyl a gorffen Ecsbloetiaeth.<br>• Mae datganiad sefyllfa yn erbyn cynnydd wedi'i gynhyrchu.<br>• Cynllun Cyflawni Ecsbloetiaeth Rhanbarthol diwygiedig wedi'i ddrafftio<br>• Nodwyd ecsbloetiaeth fel thema diogelu ar gyfer 24-25 ac mae nifer o sesiynau ymarfer ac ymwybyddiaeth wedi'u darparu ar draws y rhanbarth. | Bydd y BDRh yn parhau i oruchwylio mewn perthynas â'r cynnydd yn erbyn y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni Ecsbloetiaeth diwygiedig. |
| **CAM-DRIN RHYWIOL** | | | |
| **2.** | Adolygu ein cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (CPRh) a sicrhau bod argymhellion yr Ymchwiliad<br>Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (YAGPRh) yn cael eu gweithredu yn y rhanbarth<br>Mannau Problemus Thematig | • Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen Cam-drin Plant yn Rhywiol i adolygu cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu Cymru Gyfan ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin rhywiol, argymhellion adroddiad YAGPRh ac argymhellion cysylltiedig o adolygiadau rhanbarthol.<br>• Datganiad sefyllfa wedi'i ddrafftio ar gyfer y bwrdd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed.<br>• Gweithio gyda Gweithredu Dros Blant i ymgymryd â hunanasesiad 'ciplun' rhanbarthol mewn perthynas â'r ymateb rhanbarthol i CPRh a fydd yn darparu rhai meysydd gwella allweddol ar gyfer 24-25<br>• Cynrychiolir BDRh Caerdydd a'r Fro ar y gweithgorau i lunio a datblygu Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan newydd ar gyfer CPRh. | Bydd y pecyn hyfforddi ADUS y cytunwyd arno yn cael ei gyflwyno i weithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth. |
| **CAM-DRIN DOMESTIG** | | | |
| **3.** | Sicrhau gwelededd y strategaeth VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) ranbarthol newydd yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a chefnogi'r gwaith o ledaenu dysgu o adolygiadau ar draws y rhwydwaith VAWDASV<br>Mannau Problemus Thematig | Strategaeth VAWDSV wedi'i rhannu â phartneriaid y bwrdd | Bydd y BDRh yn alinio ymhellach flaenoriaethau trawsbynciol y bwrdd VAWDSV a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. |

| CAM GWEITHREDU | | EIN CYNNYDD ELENI | BETH NESAF? |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PONTIO** | | | |
| **4.** | Datblygu gwasanaethau diogelu pontio i sicrhau cefnogaeth gyfannol i bobl ifanc 18-25 oed sy'n dod yn oedolion<br><br>Mannau Problemus Thematig | • Archwiliwyd y thema diogelu drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen ecsploetiaeth.<br>• Archwiliwyd modelau o arfer gorau ar draws y rhanbarth ac mae cydweithio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion wedi'i gryfhau'n lleol. | Mae angen datod y flaenoriaeth hon ymhellach i ddeall beth sydd ei angen i gefnogi trefniadau pontio ar draws y rhanbarth. |
| **HUNAN-ESGEULUSTOD** | | | |
| **5.** | Datblygu pecyn cymorth hunan-esgeulustod a sicrhau ei fod yn cael ei rannu'n effeithiol ag ymarferwyr ar draws y rhanbarth<br><br>Mannau Problemus Thematig | • Pecyn Cymorth Hunan-esgeulustod Oedolion – Pecyn Cymorth wedi'i ddatblygu a'i gadarnhau gan y bwrdd ym mis Mawrth 24. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda gweithwyr tai proffesiynol a'r bwrdd prosiect celcio.  Mae cynlluniau ar waith i lansio a lledaenu'r pecyn cymorth ynghyd â rhaglen o weithdai datblygu ymarfer.<br>• Strategaeth Esgeuluso Plant – Strategaeth wedi'i datblygu a'i chadarnhau gan y bwrdd ym mis Mawrth 24. Mae cynlluniau ar waith i lansio a lledaenu'r strategaeth ynghyd â rhaglen datblygu ymarfer | Bydd y BDRh yn lansio'r pecynnau cymorth ochr yn ochr â phecyn o weithgarwch codi ymwybyddiaeth a dysgu |




## ADOLYGIAD LLYWODRAETHU


Yng Ngwanwyn 2022 cytunodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i dreialu set symlach o drefniadau llywodraethu a disodli'r cyfarfodydd is-grŵp gydag un grŵp cyflawni. Adolygwyd y trefniadau yn ystod Diwrnod Datblygu 2024 a daethpwyd i gytundeb i barhau â'r trefniadau hyn fel 'busnes fel yr arfer'. Mae'r trefniadau diwygiedig wedi caniatáu ar gyfer y canlynol;

- Mae mwy o gapasiti i bartneriaid y bwrdd fynychu cyfarfodydd - mae llawer o bartneriaid wedi mynychu pob cyfarfod grŵp cyflawni gan ganiatáu trafodaeth gadarn a datblygiad cyflym ar gyfer ffrydiau gwaith.
- Mae capasiti'r Uned Fusnes wedi cynyddu gan ganiatáu i'r adnodd hwn gael ei ail-lunio i gefnogi gweithrediad dysgu o adolygiadau a chyflawni'r Cynllun Blynyddol yn well
- Roedd goruchwyliaeth sengl o ddatblygiad a chamau dilynol ar ffrydiau gwaith wedi arwain at drafodaethau a chynllunio llai tameidiog.

### Bwrdd Diogelu Rhanbarthol – Llywodraethu Presennol




### Bwrdd Diogelu Rhanbarthol – Llywodraethu Blaenorol



# TYNNU SYLW AT EIN CYFLAWNIADAU...


Gweithgaredd a Data Amlasiantaethol

Proses Ddiogelu

## Dangosfwrdd Data BDRh

- Ym mis Gorffennaf 2023 datblygwyd traciwr data i alluogi dadansoddi, camau dilynol a chraffu gwell ar waith y bwrdd.
- Datblygwyd dangosfwrdd Power BI hefyd fel offeryn delweddu data i gyflwyno'r data mewn ffordd syml ac mae'n caniatáu ar gyfer dadansoddiad byw o'r data.
- Mae'r Dangosfwrdd ar hyn o bryd yn cynnwys dadansoddiad o; 'adolygiadau', 'argymhellion' a 'chadeiryddion ac adolygwyr' a gall aelodau'r Bwrdd, y Grŵp Cyflawni a'r Grŵp Adolygu Achosion gael mynediad.
- Mae hwn yn ymarfer ar wahân ond bydd yn ategu'r gwaith a fydd yn cael ei wneud ar gyfer 'fframwaith perfformiad diogelu'r bwrdd.




Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board


## DATA CIPLUN – ADOLYGIADAU YMARFER

### Adolygiad Ymarfer Presennol – Trosolwg




18 o Adolygiadau Ymarfer a FfPAau yn mynd rhagddynt

### Cynnydd CMG Adolygiad 'Ar Waith'




### Amserlenni Ers Atgyfeirio – Adolygiadau 'Ar Waith'





55% o'r adolygiadau yn mynd rhagddynt dros 2 flynedd (83% ym mis Gorffennaf)

44% o'r adolygiadau yn mynd rhagddynt dros 3 blynedd (61% ym mis Gorffennaf)

## DATA CIPLUN – ARGYMHELLION / CAMAU GWEITHREDU / HUNANASESIAD

### Argymhellion Agored – Trosolwg





23
o Gamau Gweithredu
i'w
cwblhau


### Cynnydd Argymhellion Gorffennaf – Rhagfyr 23

| | Gorffennaf 2023 | Mawrth 2024 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Argymhellion Agored** | 60 | 38 | ▼ |
| **Anghyflawn** | 84% (50 arg.) | 35% (21 arg.) (o'r cyfanswm ers Gorffennaf) | ▼ |
| **Gwyrdd** | 16% (10 Arg.) | 45% (17 arg.) | ▲ |
| **Melyn** | 58% (35 arg.) | 47% (18 arg.) | ▼ |
| **Coch** | 18% (11 arg.) | 11% (4 arg.) | ▼ |

### Dadansoddiad Hunanasesiad




### Hunanasesiad Hyfforddiant – Ystadegau Hyfforddiant Grŵp A



# ADRAN 137:
# CEISIADAU AM WYBODAETH

Dan Adran 137 y DGCLl, gall Bwrdd Diogelu, at y diben o alluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i berfformio ei swyddogaethau, ofyn i berson neu gorff cymwys gyflwyno gwybodaeth benodol y mae isadran (2) neu (3) yn berthnasol iddi - (a) y Bwrdd, neu (b) person neu gorff a nodir gan y Bwrdd.

**Eleni, nid yw Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi gorfod defnyddio unrhyw geisiadau Adran 137.**

## Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (GAChOau)

Dan Adran 127 yn y DGCLl, "gall swyddog awdurdodedig wneud cais i Ynad Heddwch am orchymyn ("gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn") mewn perthynas â pherson sy'n byw mewn unrhyw eiddo mewn ardal awdurdod lleol."

Diben gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn yw -

(a) galluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl

(b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i bennu a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau'n rhydd, a


(c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a gwneud penderfyniad fel sy'n ofynnol dan Adran 126(2) ar y camau y dylid eu cymryd, os o gwbl.

**Yn ystod 2021-2022, ni fu angen i BDCF ddefnyddio'r pwerau dan yr adran hon.**




# EIN PARTNERIAETH DDIOGELU

**Mae ein haelod sefydliadau i gyd wedi cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau diogelu a rennir:**



# CYLLIDEB

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae'r graff a'r siart isod yn dangos sut y cytunodd y Bwrdd ar gyllid gan bob asiantaeth yn 2023-2024:




### Cyfraniadau Partner

- Awdurdodau Lleol
- Iechyd
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Prawf

| Sefydliad | Cyfraniad Cyfun Arfaethedig | Rhaniad yn ôl Sefydliad | Cyfraniad Presennol at Raniad BDRh (%) | Rhaniad Cyfraniad Cyfredol (£) |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 60% | Cyngor Caerdydd | 67% | £60,000.00 |
| | | Cyngor Bro Morgannwg | 33% | £30,000.00 |
| Heddlu De Cymru | 10% | Heddlu De Cymru | 100 | £15,000.00 |
| Iechyd | 25% | BIP Caerdydd a'r Fro | 81.25% | £30,468.75 |
| | | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | 18.75% | £7,031.25 |
| Gwasanaeth Prawf | 5% | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 100% | £7,500.00 |

# CYSYLLTU Â NI

## Bro Morgannwg

**Plant**

Os oes gennych bryderon am blentyn sy'n byw ym Mro Morgannwg cyfeiriwch eich pryderon at Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg:

Cysylltwch â'r Tîm Derbyn a Chymorth i Deuluoedd ar **01446 725 202**

Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau Swyddfa:

**029 2078 8570**

**Oedolion**

Os ydych chi wedi neu'n dal i gael eich cam-drin neu'n nabod rhywun rydych chi'n credu ei fod yn cael ei gam-drin neu esgeuluso, cysylltwch â:

Gwasanaethau Oedolion Bro Morgannwg: **01446 700111**

Y Tu Allan i Oriau:**02920 788570**

## Caerdydd

**Plant**

Os oes gennych bryderon am blentyn sy'n byw yng Nghaerdydd cyfeiriwch eich pryderon at Wasanaethau Plant Caerdydd.

Cysylltwch â'r Pwynt Mynediad Plant ar **029 2053 6490**

Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau Swyddfa: **029 2078 8570**

**Oedolion**

Os ydych chi wedi neu'n dal i gael eich cam-drin neu'n nabod rhywun rydych chi'n credu ei fod yn cael ei gam-drin neu esgeuluso, cysylltwch â:

Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) Caerdydd: **02922 330888**

Y Tu Allan i Oriau:**02920 788570**

**Os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed a'i fod yn fater brys ffoniwch 999 a siaradwch â'r heddlu.**

**Ar gyfer ymholiadau cyffredinol:**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Diogelu, cysylltwch ag Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu:

**E-bost:** BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk **Gwefan:** https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/

# ATODIAD

1. ADRODDIAD CRYNODEB WYTHNOS DIOGELU GENEDLAETHOL
2. ADRODDIAD DIWRNOD DATBLYGU
3. AELODAETH Y BWRDD
4. STRWYTHUR LLYWODRAETHU BDRH



ATODIAD 1

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board



# Wythnos Diogelu Genedlaethol 2023

# ADRODDIAD CRYNO





Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
**This document is available in English**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF
CAERDYDD



# WYTHNOS DIOGELU GENEDLAETHOL

## 13 – 17 TACHWEDD 2023

Mae Wythnos Diogelu yn ddigwyddiad blynyddol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC), gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r gymuned o negeseuon diogelu allweddol, trwy ddarparu ystod o ddigwyddiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb.

Eleni, dewisodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro 'Camfanteisio' fel ein thema leol a chynhaliodd a chydlynodd raglen o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth llwyddiannus a gyflwynwyd ar draws y rhanbarth.

## 'Gall camfanteisio ddigwydd i unrhyw un, yn unrhyw le'

Gall camfanteisio fod ar sawl ffurf ac yn aml gall fynd heb sylw arno neu heb ei adrodd. Gall ddigwydd i unrhyw un, yn unrhyw le a gall effeithio ar blant ac oedolion. Fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd i fynd i'r afael â'r mater hwn, mae camfanteisio yn cwympo i un o'r 3 prif flaenoriaeth yng nghynllun Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2023 a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus i'r Bwrdd.

Datblygodd a chyhoeddodd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ei Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol (**Exploitation-Strategy_ENGLISH.pdf (cardiffandvalersb.co.uk)**) yn 2019, ac ers ei chyhoeddi mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â chamfanteisio ac ymateb iddo.

Dewiswyd 'Camfanteisio' i fod y thema leol ar gyfer Wythnos Diogelu Genedlaethol eleni er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn ac i dynnu sylw at y gwaith sylweddol a wnaed ledled y rhanbarth i fynd i'r afael â chamfanteisio ac ymateb iddo.

| 18 | 373 | Dros 30 | 184 |
| --- | --- | --- | --- |
| o ddigwyddiadau ar hyd yr wythnos | o weithwyr proffesiynol wedi dod i'n digwyddiadau ar-lein ar hyd yr wythnos | o wahanol sefydliadau wedi'u cynrychioli mewn digwyddiadau ar hyd yr wythnos | o bobl wedi mynd i Gynhadledd yr Wythnos Diogelu |

# RHAGLEN DDIGWYDDIADAU

Cafodd rhaglen gydgysylltiedig o ddigwyddiadau, yn darparu ystod o ddigwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth rhithwir ac wyneb yn wyneb, ei lledaenu'n eang ledled y rhanbarth gan gynnwys yr uchafbwyntiau canlynol:






- Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n Mynd ar Goll o'r Ysgol/ Cartref
- NSPCC Let's Talk PANTS
- Masnachu Pobl a Theithio Diogelach
- St Giles – Gangiau, Llinellau Cyffuriau a Thrais Ieuenctid Difrifol
- Hunaniaeth a Gwladgarwch
- Trosolwg o Linellau Cyffuriau
- Arwyddion a Dangosyddion Camfanteisio ar Blant
- Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol: Trosolwg
- Barnardo's – Perthnasau Iach, Datblygiad ac Ymddygiad Rhywiol yn yr Ysgol Gynradd
- Barnardo's - Datblygiad ac Ymddygiad Rhywiol: Ystyried Bwlio ac Aflonyddu Rhywiol ymysg Plant Oedran Ysgol Uwchradd
- Digwyddiad Codi Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio: Mynd i'r afael â Chamfanteisio – Cyfrifoldeb Pawb
- Digwyddiad Cenedlaethol BDAC: Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant 'Cryfhau Ein Cyfrifoldeb Diogelu ar y Cyd'
- Fearless - Llinellau Cyffuriau a Throseddau Cyllyll
- Cymru Ddiogelach - natur a mynychder camfanteisio'n

# ADBORTH A SYLWADAU

"Diolch yn fawr, addysgiadol iawn"

(Diogelu Plant a Phobl Ifanc sy'n Mynd ar Goll o'r Ysgol/Cartref)

"Roedd hi'n sgwrs ddiddorol... diolch yn fawr!"

(masnachu pobl a theithio diogelach)

Offeryn defnyddiol i'w ddefnyddio gyda theuluoedd ac mae'r adnoddau sy'n addas i blant yn ddefnyddiol".

(NSPCC Let's Talk Pants)

"Sesiwn hyfforddi o'r radd flaenaf. Daeth â phersbectif hollol newydd i'r pwnc hwn a'i gyflwyno trwy lens wahanol. Roedd yr hyfforddwr Jonathan yn rhagorol, yn atyniadol ac yn addysgiadol iawn..."

St Giles – Gangiau, Llinellau Cyffuriau, Trais Ieuenctid Difrifol

"Diolch yn fawr – sesiwn addysgiadol"

Arwyddion a Dangosyddion Camfanteisio ar Blant

"Rhagorol"

(Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol: Trosolwg)

Wedi mwynhau'n fawr a bydd yn hawdd ei drosglwyddo i fy ymarfer gweithio, diolch".

(Barnardos - 'Sexual Development and Behaviour: Considering Sexual Bullying and Harassment in Secondary School aged children')

"Roedd gan yr hyfforddwyr wybodaeth a mewnwelediad mor ardderchog i'r pwnc - cafodd y sgwrs ei hwyluso yn dda iawn a gyda'r fath ymdeimlad o gyd-ddysgu. Gwnes i wir werthfawrogi bod y sesiwn yn cael ei chynnig fel rhan o'r wythnos ddiogelu, gwnaeth gynnig cyfle gwych i adfywio yn y maes hwn sy'n codi trwy fy ngwaith fy hun, sy'n cynnwys cefnogi cwnselwyr mewn ysgolion cynradd".

(Barnardos – 'Healthy Relationships, Development and Sexual Behaviour in Primary School')

"Wedi mwynhau yn fawr, mor addysgiadol a chyflwyniad gwych"

(Fearless - Llinellau Cyffuriau a Throseddau Cyllyll)

"Diolch yn fawr - mor ddefnyddiol"

(Cymru Ddiogelach)

# CYNHADLEDD BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO 2023

Fel diweddglo addas i'r wythnos, cynhaliwyd Cynhadledd BDCF yn Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd gyda phwyslais thematig allweddol ar Gamfanteisio,

Agorwyd y gynhadledd gan Julie Morgan, Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Cyflwynwyd nifer o gyflwyniadau rhagorol ar y gwahanol fathau o gamfanteisio ar draws meysydd diogelu plant ac oedolion a chynhaliwyd gweithdai rhyngweithiol fel rhan o sesiwn y prynhawn.

Roedd y gweithdai yn cynnwys:

- **Crafting Mendable Masculinities (Yn Ymarferol)**
- **Deall cam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun camfanteisio**
- **St Giles Cymru – Lived Experience Volunteering Model & Quality Framework**
- **Cymru Heb Drais: Atal Camfanteisio ymhlith Plant a Phobl Ifanc**
- **Adolygiadau Ymarfer BDCF – Ymwreiddio Dysgu mewn Ymarfer**

Daeth y gynhadledd i ben gyda chyflwyniad pwerus ac emosiynol a gyflwynwyd gan brif siaradwr, Sammy Woodhouse, goroeswr sgandal Rotherham CSE ac ymgyrchydd camfanteisio, a rannodd ei stori bersonol am sut mae hi'n ailadeiladu ei bywyd ar ôl goroesi camfanteisio troseddol a rhywiol yn ei harddegau.

**"Diwrnod gwych, addysgiadol iawn ac roedd profiad byw Sammy yn uchafbwynt go iawn. Diolch yn fawr."**

**"Diolch unwaith eto, roedd gallu clywed yn uniongyrchol gyfrif goroesi mor galed gan y Sammy Woodhouse ysbrydoledig yn ffordd berffaith o orffen a darparu'r egni ysgogol ychwanegol yna i ddal ati y filltir ychwanegol".**

**"Gwnaeth Sammy Woodhouse fy nghyfareddu. Am fenyw ifanc ryfeddol sydd wedi ei siomi gan gymaint o bobl, sydd wedi fy ngwneud i hyd yn oed yn fwy penderfynol o wneud gwahaniaeth a gwneud newidiadau i'r ffordd y mae staff yn cael eu hyfforddi i wylio am y materion a wynebodd Sammy"**

# CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Dosbarthwyd nifer o gyfathrebiadau wedi'u targedu a briffiau staff i asiantaethau partner a thrydydd sector yn y cyfnod cyn yr Wythnos Diogelu Genedlaethol, er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ddigwyddiadau. Cafodd sawl pecyn cyfathrebu ei ddatblygu a'i rannu hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrchoedd cenedlaethol a gafodd eu lansio fel rhan o weithgareddau'r wythnos.

## #LookCloser


Cafodd ymgyrch ac adnoddau Look Closer (#LookCloser), a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Plant, eu rhannu ar draws ysgolion ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch cyfryngau cymdeithasol gynhwysfawr ac atyniadol sydd wedi'i chynllunio i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar blant a'r rôl bwysig y gall pob un ohonom ei chwarae i'w atal. Rhannwyd adnoddau hefyd, a oedd yn cynnwys posteri a thaflenni dwyieithog, ynghyd ag awgrymiadau negeseuon cyfryngau cymdeithasol.









Lansiwyd yr ymgyrch **#MakeTheCall** genedlaethol hefyd fel rhan o'r Wythnos Diogelu Genedlaethol. Mae'r ymgyrch yn annog y gymuned ehangach i rannu eu pryderon os ydyn nhw'n poeni am blentyn/ person ifanc ac i wneud yr alwad i'w gwasanaethau cymdeithasol lleol neu 101. Bydd hon yn ymgyrch gymdeithasol a digidol a fydd yn rhedeg yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr.

## Peidiwch â meddwl
## "BETH OS YDW I'N ANGHYWIR",
## Meddyliwch...
## "BETH OS YDW I'N IAWN"











Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

**Hoffai Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ddiolch i bawb a helpodd i wneud digwyddiadau'r wythnos mor llwyddiannus.**

ATODIAD 2

Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Adroddiad Crynhoi
# **Diwrnod Datblygu**

23· IONAWR 2024



**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

This document is available in English

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF
CAERDYDD

# Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

Rhoddodd diwrnod datblygu'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyfle i fyfyrio ar y gwaith sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf a chyfle i wrando, ymgysylltu a dysgu gan bob partner i adolygu blaenoriaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn, gan nodi'r meysydd lle bydd ffocws ychwanegol gan y Bwrdd yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi ymarferwyr wrth ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ledled rhanbarth Caerdydd a'r Fro.

Aeth **35** o weithwyr proffesiynol i'r diwrnod datblygu

Cafodd **20** o sefydliadau / adrannau eu cynrychioli ledled Caerdydd a'r Fro

## Cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2023/24

Hwylusodd cadeiryddion ar y cyd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau a Lance Carver, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg, adolygiad o'r blaenoriaethau cyfredol yn y cynllun blynyddol sy'n amlygu rhai meysydd allweddol o arfer da a gofyn i gyfranogwyr fyfyrio ar y cynnydd hyd yma ac awgrymu ffyrdd y gallwn adeiladu ar y cynnydd yn 2024/25.

Mae gan y cynllun presennol dri maes blaenoriaeth:

## BLAENORIAETH 1: HANFODION DIOGELU

**CANLYNIAD:** Mae'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn cefnogi gwelliant strategol, partneriaethau effeithiol a datblygiad y gweithlu i sicrhau bod hanfodion diogelu yn cael eu cryfhau ar draws y rhanbarth.

## BLAENORIAETH 2: ADOLYGIADAU DIOGELU EFFEITHIOL

**CANLYNIAD:** Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn sicrhau bod yna brosesau adolygu effeithiol a bod dysgu o adolygu yn cael ei weithredu ar draws y bartneriaeth.

## BLAENORIAETH 3: YMATEB I THEMÂU DIOGELU

**CANLYNIAD:** Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ymateb yn effeithiol i themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac yn cefnogi cydlynu ymateb amlasiantaethol effeithiol.

# Uchafbwyntiau Cynnydd 23/24

Hunanasesiad hyfforddiant wedi'i ddatblygu a'i gwblhau gan bartneriaid y bwrdd, dadansoddiad o'r data wedi'i gynnal a chamau gwella wedi'u cynhyrchu ar gyfer yr holl bartneriaid o ganlyniad i hynny.

Cofrestr risg y Bwrdd bellach ar waith, proses wedi'i hymgorffori i adolygu risgiau a thrafod a gweithredu camau lliniaru ar draws y bartneriaeth.

Gwnaed cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu fframwaith perfformiad bwrdd yn unol â phrototeip fframwaith perfformiad cenedlaethol y BDAC.

Mae cynllun peilot Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yn dod ymlaen yn dda a mewnbwn a chynrychiolaeth y bwrdd wedi'u hymgorffori yng ngweithgorau cenedlaethol ADUS i sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer gweithredu a chyflwyno ADUS yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd ymarfer cadarn i atgyfnerthu a sicrhau y defnyddir CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) fel yr argymhellion ar gyfer adolygiad rhagorol. Gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu argymhellion a chamau gweithredu a gynhyrchir o adolygiadau.

Datblygwyd dangosfwrdd data'r Bwrdd sy'n darparu dadansoddiad byw i bartneriaid ar statws adolygiadau ac argymhellion cysylltiedig yn ogystal â dadansoddiad thematig. Mae hyn yn cefnogi partneriaid i ddatblygu gwelliannau.

Hunanasesiad y Bwrdd wedi'i gynnal, a chamau gwella wedi'u cynhyrchu, a fframwaith hunanasesu'r bwrdd wedi'i ddatblygu a'i gytuno gan bartneriaid.

Cynhaliwyd Wythnos Diogelu Genedlaethol Lwyddiannus – gyda 18 digwyddiad yn cael eu cynnal drwy gydol yr wythnos, a thros 350 o weithwyr proffesiynol yn bresennol yn cynrychioli dros 30 o wahanol sefydliadau.

## Heriau Allweddol

- Data perfformiad – ansawdd data a gallu i ddadansoddi'r data sydd gennym yn effeithiol, gan sicrhau mynediad i bawb
- Ehangder y blaenoriaethau thematig diogelu – anodd asesu cynnydd
- Sicrhau perchnogaeth glir o gamau gweithredu / argymhellion
- Eglurder o ran yr iaith a ddefnyddir – angen i bawb ddeall yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni
- Cyllidebau'r gweithlu, pwysau cenedlaethol a galwadau ar y gwasanaeth



# "Mae'n rhaid i ni ddal ati"

## Sut y gallwn adeiladu ar ein cynnydd?

- Bod yn fwy **ataliol** nag adweithiol yn ein dull gweithredu
- Gwella a chryfhau'r broses o **rannu gwybodaeth**
- Sicrhau bod y cynnydd rydym wedi'i gyflawni'n **cael ei gynnal**
- Mesur **effaith** ein canlyniadau - ydy'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth?
- **Hyfforddiant** - Mae cydlynu'r cynnig hyfforddi rhanbarthol yn fwy canolog, sicrhau cysondeb o ran hyfforddiant a'r elfen amlasiantaethol yn allweddol.
- **Data / Perfformiad** - cryfhau'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r fframwaith perfformiad, cysylltu â datblygiadau data ehangach (Golwg Unigol)
- **Cyfathrebu ac Ymgysylltu** – angen sicrhau bod unrhyw ddysgu o adolygiadau yn cael ei ledaenu a'i ddeall yn effeithiol.
- Dadansoddi'r meysydd thematig yn **gamau gweithredu mwy penodol**
- Cryfhau'r **cydweithio** gyda threfniadau llywodraethu eraill er enghraifft VAWDSV, sut allwn ni weithio ar y cyd ar y blaenoriaethau trawsbynciol?

# Adolygiad Data a Risg


Bu Sian Sanders, Pennaeth Diogelwch Cymunedol a Chydlyniant a Rebecca Brockway, Rheolwr Polisi a Datblygu yn adolygu'r data, canfyddiadau hunanasesu a dadansoddiad o gofrestr risg bresennol y bwrdd i'w trafod.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddeall ein data yn well mewn perthynas ag adolygiadau a'r cynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu a gynhyrchir o argymhellion adolygiad. Gwelwyd gostyngiadau yn y terfynau amser ers i adolygiadau gael eu dechrau ac mae Hunanasesiad y Bwrdd yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud i wella swyddogaeth graidd y bwrdd.

## Cynnydd Argymhellion

| | Gorffennaf 2023 | Rhagfyr 2023 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Argymhellion agored | 60 | 38 | ↓ |
| Anghyflawn | 84 % | 38 %<br>(Yn gyffredinol ers mis Gorffennaf) | ↓ |
| Gwyrdd | 16 % | 37 % | ↑ |
| Oren | 58 % | 50 % | ↓ |
| Coch | 18 % | 13 % | ↓ |

## Dadansoddiad Hunanasesu'r Bwrdd





## Trafod Blaenoriaethau Hyfforddiant

- Cynnig hyfforddiant da ar draws sefydliadau partner – sut gallwn ni gydweithio'n well i ddarparu cynigion ar y cyd
- Mae'r rhwydwaith cydlynwyr hyfforddiant yn gam cadarnhaol – angen adeiladu ar hyn
- Mae Hyfforddiant Amlasiantaethol yn flaenoriaeth
- Nid oes rhaid iddo fod yn hyfforddiant yn yr ystyr draddodiadol bob amser
- Hwyluso cyfleoedd ar gyfer datblygu ymarfer, trafodaethau amlasiantaethol, fforymau, rhwydweithiau
- Cydlynu'r cynnig hyfforddiant yn ganolog o fewn uned fusnes y bwrdd
- Angen gwella ein cydymffurfiaeth orfodol ar draws y bwrdd – mae diogelu yn hyfforddiant hanfodol



## Trafodaeth Cofrestr Risg

- Cadarnhaol cael llwyfan i godi a thrafod risgiau fel partneriaeth bwrdd
- Angen bod yn glir ynghylch sut mae risgiau'n cael eu codi i'r bwrdd / y trothwyon risg a sut mae'r gofrestr yn cysylltu â chofnodion risg partneriaid unigol
- Bydd y data perfformiad, pan fydd ar gael, yn ategu'r gofrestr ac yn tynnu sylw at feysydd ffocws
- Angen bod yn glir mewn perthynas â pha risgiau sydd o dan reolaeth y bwrdd, beth yw'r risgiau mewnol a beth sy'n allanol

## Risgiau eraill a allai fod angen eu hystyried

- Gwaith amlasiantaethol effeithiol
- Dysgu'n effeithiol o adolygiadau – rhannu'r dysgu â phawb
- Gofal Iawn, Person Iawn

# Themâu Allweddol, Dysgu ac Argymhellion o Adolygiadau o Arferion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol diweddar

Yn ystod eu cyflwyniad, tynnodd Kate Bishop, Rheolwr Busnes BDRh a Chadeirydd CRG Beth Ansley sylw at y sefyllfa bresennol o ran adolygiadau o arferion diogelu a'r dysgu allweddol ohonynt i'w hystyried.

**6** atgyfeiriad newydd

- 3 Phlentyn
- 3 Oedolyn (1 Adolygiad Ymarfer Oedolion wedi'i gytuno, 1 Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol wedi'i gytuno)

**4** Adolygiad cyhoeddus

- 2 Adolygiad Ymarfer Oedolion
- 2 Adolygiad Ymarfer Plant

## Themâu Dysgu

- **Uwchsgilio**
- **Rhannu Gwybodaeth**
- **Codi Ymwybyddiaeth**
- **Y Broses Ddiogelu**
- **Teulu Meddwl**



## Dysgu o adolygiadau - Trafodaeth

- Croesdoriad clir o themâu o ddysgu o adolygiadau cenedlaethol ac adolygiadau ymarfer lleol
- Bydd ystorfa Cymru Gyfan yn helpu i ddwyn ynghyd themâu dysgu o bob rhan o Gymru
- Prosesau gwell nawr yn eu lle yn rhanbarthol i sicrhau bod camau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar waith ac yn cyd-fynd â chamau gweithredu tebyg
- Angen edrych yn fanylach ar ail-argymhellion – sut rydym yn sicrhau bod y camau penodol yn ystyrlon.
- Sut mae'r argymhellion / blaenoriaethau'r cynllun blynyddol yn cysylltu â blaenoriaethau asiantaethau partner unigol er mwyn gallu trosi'n ymarfer.
- Mae rhannu gwybodaeth yn allweddol – gwella dealltwriaeth pobl o ddeddfwriaeth.
- Nid oes rhaid i ni bob amser ganolbwyntio ar hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth fel ffyrdd o symud ymlaen â newid - mae angen i ni edrych ar yr hyn y gall partneriaid ei wneud i alluogi newid yn eu sefydliadau.

## Themâu Diogelu

Gofynnwyd i'r mynychwyr ystyried a thrafod yr hyn yr oeddent yn credu oedd y prif faterion diogelu i'w hystyried yn y flwyddyn i ddod.

- Cam-drin Rhywiol / Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant
- Plant nad ydynt mewn addysg
- Llais y Plentyn
- Chwilfrydedd Proffesiynol
- Effaith cam-drin domestig ar blant
- Iechyd meddwl
- Datblygu cymunedol
- Radicaleiddio
- Camddefnyddio Sylweddau / Camddefnyddio Sylweddau Plant
- Ymgysylltu â'r teulu
- Camfanteisio ar-lein
- Effaith cyfryngau cymdeithasol

# I grynhoi



Roedd diwrnod datblygu'r bwrdd diogelu rhanbarthol yn gyfle gwych i ddod â phartneriaid at ei gilydd i drafod y cyflawniadau a'r cynnydd a wnaed yn ogystal â thrafod y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y bwrdd wrth symud ymlaen. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gweithio gyda'n gilydd mewn ffordd CAMPUS ac effeithlon i sicrhau bod plant ac oedolion sydd mewn perygl yn cael eu diogelu'n effeithiol.

O'r digwyddiad a thrwy drafod ymhellach gydag aelodau'r bwrdd, bydd cynllun blynyddol yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2024-25 a fydd yn fframio'r canlyniadau a'r cyflawniadau rydym yn gobeithio eu dangos a'u dathlu yn niwrnod datblygu nesaf y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod neu ei gyfrannu ymhellach i'r adroddiad crynhoi hwn, cysylltwch ag aelod o uned fusnes y BDRh.
**BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk**

# ATODIAD 3

## AELODAETH BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllaw a grëwyd dan Ran 7 (Adran 134(2) o Ddeddf GCaLl 2014). Ceir rhestr o aelodau isod:

| ENW | SWYDD |
|---|---|
| **CADEIRYDDION** | |
| **Lance Carver** | **CYD-GADEIRYDD** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg |
| **Sarah McGill** | **CYD-GADEIRYDD** Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, Caerdydd |
| **AWDURDOD LLEOL** | |
| **Deborah Driffield** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, Caerdydd |
| **Rachel Evans** | Pennaeth Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg |
| **Natasha James** | Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth, Bro Morgannwg |
| **Iain McMillan** | Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg |
| **Jason Bennett** | Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, Bro Morgannwg |
| **Dave Murray-Dickson** | Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd |
| **Melanie Godfrey** | Cyfarwyddwr Addysg, Caerdydd |
| **Elizabeth Jones** | Pennaeth Cyflawni i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, Bro Morgannwg |
| **Nick Jones** | Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Bro Morgannwg |
| **Sandra Canham** | Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Anghenion Tai, Tai a Chymunedau, Caerdydd |
| **Kirsty Davies** | Rheolwr GTI y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg |
| **Angharad Thomas** | Rheolwr GTI y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Caerdydd |

| ENW | SWYDD |
|---|---|
| **BWRDD IECHYD** | |
| **Jason Roberts** | Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Linda Hughes-Jones** | Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Nicola Edwards** | Pennaeth Nyrsio - Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **TÎM DIOGELU CENEDLAETHOL, IECHYD CYHOEDDUS CYMRU** | |
| **Claire Thomas** | Meddyg Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **YMDDIRIEDOLAETH GIG FELINDRE** | |
| **Fiona Davies** | Pennaeth Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre |
| **HEDDLU DE CYMRU** | |
| **Clayton Richie** | Ditectif Arolygydd, Adran Gwarchod y Cyhoedd, Heddlu De Cymru |
| **Beth Aynsley** | Rheolwr Amddiffyn Annibynnol ar gyfer Pobl Agored i Niwed, Heddlu De Cymru / Cadeirydd Grŵp Adolygu Achosion |
| **Y GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL** | |
| **Eirian Evans** | Pennaeth Uned Gyflawni Prawf Caerdydd a'r Fro |
| **ADDYSG** | |
| **Melanie Godfrey** | Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd |
| **Elizabeth Jones** | Pennaeth Cyflawni i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, Bro Morgannwg |
| **TAI** | |
| **Nick Jones** | Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Bro Morgannwg |
| **Sandra Canham** | Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Tenantiaid, Tai a Chymunedau |
| **Y SWYDDFA GARTREF** | |
| **Gemma Ware** | Rheolwr Gweithrediadau Diogelu, Canolfan Diogelu Ffoaduriaid, Y Swyddfa Gartref |

| ENW | SWYDD |
|---|---|
| **GWASANAETH CARCHAR EI FAWRHYDI** | |
| **Amanda Corrigan** | Llywodraethwr, GCEF |
| **YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU** | |
| **Nikki Harvey** | Pennaeth Diogelu Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU** | |
| **Melanie Evans** | Swyddog Arweiniol Diogelu, Diogelwch Cymunedol |
| **TRYDYDD SECTOR** | |
| **Sarah Crawley** | Cyfarwyddwr, Barnardo's |
| **DARPARWYR GOFAL** | |
| **Brian West** | Cadeirydd Cartrefi Gofal Bro Morgannwg/Fforwm Gofal Cymru |
| **YMGYNGHORWYR YN BRESENNOL** | |
| **Leanne Weston** | Rheolwr Gweithredol ar gyfer y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Tîm Cyfreithiol Cymunedol, Caerdydd |
| **Victoria Davidson** | Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol, Bro Morgannwg |

# ATODIAD 4

## LLYWODRAETHU BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

